

Dyddiadur Bronwen

Mae'r babi fel arfer yn deffro o gwmpas 7-7:30, felly caiff ei fotel mewn heddd a gallaf fwynhau fy nghwpaned cyntaf o goffi, yna mae'r plentyn 2 flwydd oed yn ein clywed ac yn ymuno â ni ar y sofffa gyda'i diod o laeth.

Fy nyletswydd gyntaf yw newid y ddau glwtyn yna paratoi brechwast.

Ar ôl brechwast, mae'n amser gwisgo.

Rwy'n eu paratoi ar gyfer cwrdd â'u rhieni biolegol dair gwaith yr wythnos. Mae hyn yn cynnwys bag gyda chlytiau a dillad sbâr, cinio a diodydd.

Tra maent yn cwrdd â'u rhieni mae gen i ychydig o oriau rhydd i fynd â'r cŵn am dro, tacluso'r tŷ a gwneud ychydig o siopa. Ar ôl casglu'r plant nid ydym yn cyrraedd gartref tan oddeutu 2pm, mae'r plant wedi llwyr ymlâdd neu'n drist iawn gan amlaf ar ôl cwrdd â'u rhieni felly rydym yn cael prynhawn ymlaciol gartref yn chwarae gyda theganau a play doh neu'n pobi (ac yn bwyta wrth bobi).

Ddwywaith yr wythnos mae'r ferch fach yn mynd i gylch chwarae, gan roi cyfle iddi gymysgu â phlant eraill ei hoedran hi. Mae'r babi a minnau'n dod adref, ac yn cael amser chwarae un-ag-un gwerthfawr heb 'help' plentyn dwy flwydd oed ar ôl iddo gael cyntun yn y bore. Ar ôl casglu'r ferch o'r cylch chwarae rydym yn cael cinio, ac yna naill ai'n mynd â'r cŵn am dro i'r parc lleol lle gallai'r cŵn redeg a'r plant chwarae ar y siglen neu'r llithren, neu'n mynd i'r man chwarae meddal, gan ddibynnu ar y tywydd.

Os mae'r tywydd yn rhy gwlyb neu'n rhy oer, rydym yn mynd i'r man chwarae meddal. Rydym yn cwrdd â gofalwyr maeth eraill yn achlysurol a gall y plant chwarae tra rydym yn yfed coffi haeddiannol. Os yw fy merch ar gael, rydym yn mynd i nofio weithiau, ac mae'r ddau blentyn wrth eu bodd.

Mae amser te yn gyfle da i ni drafod y dydd a phenderfynu beth i'w wneud y diwrnod canlynol. Rydym hefyd yn dewis pa stori i'w ddarllen cyn mynd i gysgu.

Ar ôl amser te, mae'n amser cael bath, a gwisgo clwtyn glân a phyjamas. Yna, maent yn gwyllo CBeebies tra rwy'n paratoi eu poteli ac yn dewis llyfr stori. Rwy'n darllen y stori iddyn nhw tra maent yn yfed eu poteli, ac yna mae'n amser gwely. Mae'r ddau ohonyn nhw'n mynd i'w gwllâu'r un pryd ac yn setlo'n gyflym ac yn cwmpo i gysgu mewn munudau.

Yna mae'n bryd i mi dacluso ac ysgrifennu yn y dyddiadur. Mae gan y ddau blentyn ddyddiadur ar wahân er mwyn i mi gofnodi beth maent wedi ei wneud y diwrnod hwn ac a oedd unrhyw newidiadau sylweddol i'w hymddygiad neu broblemau eraill.

Yn ystod y dydd, mae'n bosib y caf i alwad ffôn gan weithiwr cymdeithasol i drefnu ymweliad, neu gan yr ymwelydd iechyd sydd eisiau gwneud apwyntiad i wirio datblygiad y plentyn, ac mae'n rhaid i mi gofnodi'r rhain yn fy nyddiadur.

Wrth wneud hyn i gyd, rwy'n cael fy hun yn myfyrio am newidiadau a gwelliannau'r plant ers iddyn nhw ddod i fyw gyda mi, yn ogystal â'r fraint o brofi cerrig milltir yn eu bywydau megis eu dannedd cyntaf, eu camau cyntaf, dysgu geiriau newydd ac yn y blaen.

Rwyf yna'n meddwl am y plant eraill rwyf wedi eu maethu a'r gwahaniaeth rwyf wedi ei wneud i'w bywydau, er mai gwahaniaeth bychan ydyw weithiau, ac rwy'n gobeithio eu bod yn cael bywyd da lle bynnag y maen nhw.

Rwyf yna'n gallu eistedd i lawr i wyllo'r teledu a gweu blanced ar gyfer doli a brynwyd gan Siôn Corn a chael ychydig o amser i fi fy hun.